OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 989 (Cy.98) (C.67)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Mawrth 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*19 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 161(3) a (4), 167(2) ac adran 170(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 172(4) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1948" ("*1948 Act*") yw Deddf Cymorth Gwladol 1948 (**2**);

ystyr "Deddf 1970" ("*1970 Act*") yw Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (**3**);

ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008;

mae i "diwrnod penodedig" ("*appointed day*") yr ystyr a roddir yn erthygl 2;

mae i "llety'r GIG" yr ystyr a roddir i "*NHS accommodation*" gan adran 24(6A) o Ddeddf 1948(**4**);

ystyr "llety'r GIG nad yw'n ysbyty" ("*non-hospital NHS accommodation*") yw llety'r GIG nad yw mewn ysbyty wedi ei freinio—

(**1**) 2008 p.14.
(**2**) 1948 p.29.
(**3**) 1970 p.44.
(**4**) Mewnosodir adran 24(6A) gan adran 148(1) o Ddeddf 2008. Diffinnir "NHS accommodation" ("llety'r GIG") fel "(a) accommodation (at a hospital or elsewhere) provided under the National Health Service Act 2006 or the National Health Service (Wales) Act 2006, or (b) accommodation provided under section 117 of the Mental Health Act 1983 by a Primary Care Trust or Local Health Board, other than accommodation so provided jointly with a local authority" ((a) llety (mewn ysbyty neu fan arall) a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, neu (b) llety a ddarperir o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Fwrdd Iechyd Lleol, ac eithrio llety a ddarperir felly ar y cyd ag awdurdod lleol").

(a) yn yr Ysgrifennydd Gwladol,

(b) yn un o Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**5**), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**6**), neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**7**),

(c) mewn Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; neu,

(ch) mewn Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu un o ymddiriedolaethau sefydledig y GIG a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y diwrnod penodedig

2. 19 Ebrill 2010 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym adran 148 o'r Ddeddf.

Darpariaeth drosiannol

3. Nid yw'r diwygiadau a wneir i adran 24 o Ddeddf 1948 (awdurdod sy'n atebol am ddarparu llety) gan adran 148(1) yn effeithiol mewn perthynas â pherson y darperir llety'r GIG nad yw'n ysbyty ar ei gyfer yn union cyn y diwrnod penodedig cyhyd â bod y cyfnod lletya hwnnw'n parhau.

4. Nid yw'r diwygiadau a wneir i adran 2 o Ddeddf 1970 gan adran 148(3) o Ddeddf 2008 yn effeithiol mewn perthynas â chwestiwn sy'n codi o dan adran 2 o Ddeddf 1970 o ran preswylfa arferol person mewn achos lle y mae'r cwestiwn, ar y diwrnod penodedig, yn destun achos llys.

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2010

(**5**) 2006 p.41.
(**6**) 2006 p.42.
(**7**) 1978 p. 29.